Cyngor Cymuned 16 Mehefin yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Fred Jones, Islwyn Jones, Margaret Lewis, Morgan Morgans a'r clerc. Ymddiheuriad : Lyn Davies, Peter Tandy.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mai 19 ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn Codi
Newid enwau yn y banc – heb ddigwydd hyd yn hyn.
Cywiro ciosg ffôn Moreia – dim gwybodaeth bellach.
Llwybr ceffyl 24/2. Derbyniwyd copi o'r map diffiniol. Ymestynwyd dyddiad cau yr ymgynghoriad tan Mehefin 21 er mwyn rhoi amser i edrych y map. Gwelwyd bod y ddau lwybr dan sylw 24/1 a 24/2 yn cael eu nodi ar y map. Gan fod rhai o'r Cynghorwyr wedi siarad â thrigolion lleol am y mater, daethpwyd i'r casgliad fod llwybr 24/2 wedi cael ei ddefnyddio flynyddoedd yn ôl, ond mai llwybr 24/1 sydd wedi cael y defnydd mwyaf diweddar. Gofynnwyd i'r clerc ymateb i'r Cyngor Sir gan ddweud hynny.
Cod Ymddygiad Diwygiedig. Gwelwyd bod un neu ddau o'r Cynghorwyr heb cael cyfle i edrych arno hyd yma.

Gohebiaeth.
1 Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Mehefin.
2 Cyfarfod o'r Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ar Fehefin 27 yn Felinfach. Gosodwyd poster ar yr hysbysfwrdd.
3 Poster ynglŷn â chymorthfeydd Mark Williams Mehefin a Gorffennaf. – cafodd ei roi ar yr hysbysfwrdd.
4 Shelter Cymru ac elusen Amaethyddol R.A.B.I. yn gofyn am gefnogaeth ariannol. Rhoddwyd y ddau gais o'r neilltu i'w hystyried eto ym mis Chwefror.
5 Cyfarfod o Bwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru yn Aberaeron Mehefin 22.
6 Penderfyniad y Cabinet ynglyn â chludiant disgyblion ôl 16 a Seddi Gwâg. Darllenwyd ymateb y Cabinet na fyddent yn codi tâl cludiant ar ddisgyblion dros 16, ond y byddent yn gwneud hynny ar rai sy'n manteisio ar seddi gwâg.

Materion Ariannol
Arian yn y banc - £2900.46
Yr Archwilwyr Allanol, Grant Thornton, angen gweld copi o'r cofnod sy'n dangos ym mha gyfarfod y penderfynnwyd faint fyddai'r praesept ar gyfer 2016/17. Arwyddwyd y copi yn barod i'w anfon atynt.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 28, yn y Neuadd.